Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Gwasanaeth Tân ac Achub / Fire and Rescue Service | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

# RHEOLWR GWASANAETH CWSMERIAID TGCH

**TGCh – Conwy**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**Gradd 08 GTAGC**
**£39,152 i £41,771 y flwyddyn**

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

Ydych chi'n angerddol am ddarparu gwasanaethau TGCh rhagorol? Rydym yn edrych i benodi Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh deinamig, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, i ymuno â'r adran TGCh sydd wedi'i lleoli yng Nghonwy.

Mae'r Rheolwr yn rôl goruchwylio arweiniol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein gwasanaethau TGCh yn dechnegol gadarn, ac hefyd yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Byddant yn arwain tîm o swyddogion TGCh, sy'n rheoli'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd o wasanaethau TG, cyfathrebu ac amlgyfrwng. Bydd y gwaith hwnnw'n sail i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd holl weithrediadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan gefnogi ystod eang o ddoniau a gofynion.

Rhan greiddiol o'r rôl yw adeiladu perthnasoedd cryf, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda staff ar draws y Gwasanaeth. Bydd y Rheolwr yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr a'r Pennaeth TGCh, gan hyrwyddo hyfedredd technegol a helpu i lunio dyfodol TGCh o fewn y gwasanaeth. Mae'r rôl yn cynnwys rheoli prosiectau, goruchwylio cydymffurfiaeth a sicrhau gwerth gorau o'n buddsoddiadau mewn technoleg.

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gymhwyster lefel gradd mewn pwnc perthnasol a / neu brofiad sylweddol mewn rheoli gwasanaethau TGCh. Bydd angen cymhwyster rheoli prosiect ffurfiol neu brofiad profedig arnynt hefyd o gyflawni prosiectau o fewn fframwaith.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus hefyd fod â'r gallu i ysgogi a datblygu staff, i wneud penderfyniadau a defnyddio menter heb fynediad uniongyrchol i'w rheolwr goruchwylio. Bydd hyn yn cael ei ategu gan sgiliau cyfathrebu rhagorol, ynghyd â galluoedd gwneud penderfyniadau a datrys problemau.

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Dylai ymgeiswyr nodi bod y tîm wedi'i leoli yng Nghonwy ond mae natur y rôl yn golygu efallai y bydd angen i chi weithio mewn gwahanol leoliadau'r gwasanaeth tân ledled Gogledd Cymru, felly efallai y bydd angen rhywfaint o deithio i leoliadau eraill o fewn ardal y Gwasanaeth a bydd angen trwydded yrru lawn CAT-B y DU ar yr ymgeisydd.

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd, 27/10/2025 gyda cyfweliadau yn cael ei cynal ar 5ed a'r 7fed Tachwedd 2025**

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*